**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 28 Tachwedd 2018 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd A Pugh (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| D W Helliwell | B Hopkins | Y V Jardine |
| L R Jones | L V Walton | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Lyndsay Thomas | Swyddog Trwyddedu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): P Downing, C R Doyle a/ac G J Tanner

---

**32 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y cysylltiadau canlynol: -

Y Cynghorydd L R Jones - Cofnod Rhif 35 - Cynllun Gweithredu Benthyca Llog Uchel - Ambell waith byddaf yn gweithio i'r diwydiant bancio a chyllid - personol.

**33 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2018 fel cofnod cywir.

**34 Rhoi'n Gall. (I'w drafod)**

Yn dilyn y pryderon a fynegwyd yn y cyfarfod diwethaf ynglŷn â thaflen hysbysebu Diverted Giving, nododd y Cadeirydd y byddai'r gost o newid y daflen tua £1,600 a chafwyd y cyllid gan yr awdurdod. Archebwyd baneri a gwybodaeth farchnata ychwanegol hefyd. Ychwanegodd fod y daflen yn rhan o gynllun cenedlaethol ond cwestiynwyd hyn gan rai elusennau.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- BID Abertawe yn ffafrio rhoi rhoddion drwy flychau casglu yn hytrach na'u rhoi nhw'n uniongyrchol i unigolyn;
- Pobl ddigartref yn colli cyfle oherwydd bod pobl yn cyfrannu drwy'r blychau;

- Newid geiriad y daflen;
- Pobl ddigartref ddilys ddim yn gwybod ble i droi am help;
- Nid yw’r prosiect Diverted Giving yn cefnogi pobl ddigartref ddilys;
- Sicrhau bod cyllid yn cael ei ddosbarthu i bobl ddigartref ddilys.

**Penderfynwyd:** -

1) Nodi cynnwys y trafodaethau;
2) Dosbarthodd y Cadeirydd lythyr drafft i'r pwyllgor yn amlinellu'r pryderon a fynegwyd;
3) Dylid trosglwyddo'r llythyr a gymeradwywyd at Arweinydd y Cyngor/i’r adran briodol.

## 35 Benthyca Llog Uchel Gweithrediad Cynllun. (Llafar)

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y Cynllun Gweithredu Benthyca Llog Uchel a dywedodd y dylai'r awdurdod gynyddu ymwybyddiaeth o Undeb Credyd Bae Abertawe gyda staff y cyngor.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Dod ag Undeb Credyd Bae Abertawe at sylw'r holl gynghorwyr a'r staff drwy raeadru'r wybodaeth drwy'r awdurdod;
- Dod ag Undeb Credyd Bae Abertawe at sylw'r holl breswylwyr drwy wefan y cyngor/Arwain Abertawe/biliau treth y cyngor/llyfrgelloedd/digwyddiadau lles;
- Rhoi neges gadarnhaol i gynilo, a chaniatáu i bobl weld y buddion.

Cynghorodd y Prif Gyfreithiwr y pwyllgor o ran ystyried sut yr oedd yn dymuno hyrwyddo'r gwasanaethau a ddarparwyd gan yr Undeb Credyd Bae Abertawe gan awgrymu bod angen cael cyngor pellach cyn mynd â'r mater ymhellach.

**Penderfynwyd:** -

1) Bod angen cael cyngor pellach gan swyddogion o ran y ffordd orau i fynd â'r mater ymhellach;
2) Yn dilyn y cyngor hwn, dosbarthodd y Cadeirydd lythyr drafft i'r pwyllgor yn amlinellu sut i fynd â'r mater ymhellach;
3) Dylid trosglwyddo'r llythyr a gymeradwywyd i'r Cabinet.

## 36 Dinas Hawliau Dynol. (I'w drafod)

Nododd y Cadeirydd fod cyfarfodydd pellach wedi'u trefnu i drafod sut roedd yr awdurdod am ddatblygu i ddod yn Ddinas Hawliau Dynol. Cynigodd fod y Cynghorydd M Sykes a Dr Simon Hoffman, Prifysgol Abertawe yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd pwyllgor mis Ionawr a Chwefror 2019.

**Penderfynwyd** bod y Cadeirydd yn cysylltu â'r Cynghorydd M Sykes a Dr Simon Hoffman, Prifysgol Abertawe er mwyn eu gwahodd naill i gyfarfod pwyllgor mis Ionawr neu Chwefror 2019.

**37 Cynllun Gwaith 2018-2019.**

Cyflwynodd y Cadeirydd gynllun gwaith wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2018-2019.

Trafododd y pwyllgor y pynciau posib canlynol: -

- Cyflogadwyedd/Gwirfoddoli/Oriau gweithio/Unigolion yn dysgu sgiliau newydd
- Clybiau ar ôl ysgol a'u heffeithiolrwydd
- Tlodi bwyd/Storio bwyd/Siopau'n cyfrannu bwyd/Unigolion yn dysgu sgiliau coginio
- Effaith y Fargen Ddinesig

**Penderfynwyd:** -

1) Dylid nodi cynnwys yr adroddiad;
2) Bod Diverted Giving a Benthyca llog uchel yn cael eu cynnwys ar bob adenda yn y dyfodol nes diwedd y flwyddyn ddinesig;
3) Cyflogadwyedd, Tlodi bwyd a Chlybiau ar ôl ysgol i'w hychwanegu at y Cynllun Gwaith ar gyfer 2018-2019.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.58 pm

**Cadeirydd**